

CYFARFOD	Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
DYDDIAD	13 Mehefin 2019
TEITL	Cyfrifon Terfynol Harbyrau Gwynedd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019
PWRPAS YR ADRODDIAD	Cyflwyno – <ul style="list-style-type: none">• Adroddiad Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2018/19, a• Ffurflen datganiadau cyfrifon, wedi'i ardystio, ond yn amodol ar archwiliad
AWDUR	Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid
GWEITHREDIAD	Derbyn a Chymeradwyo'r Cyfrifon

1. GOFYNION ADRODD HARBYRAU

- 1.1 Yn unol â'r gofynion statudol o dan Ddeddf Harbyrau 1964 mae'n rhaid i Wynedd, fel awdurdod harbyrau, ddarparu datganiad cyfrifon blynyddol sy'n ymwneud â gweithgareddau harbwr.
- 1.2 Ystyrir Harbyrau Gwynedd, oherwydd trosiant is na £2.5m, i fod yn gorff llywodraeth leol llai o faint yn unol â'r diffiniad yn y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.
- 1.3 Ar gyfer "cyrff llywodraeth leol llai o faint", mae cwblhau ffurflen datganiadau cyfrifon a ddarparwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn cwrdd â'r gofynion statudol. Bydd yn destun archwiliad ar wahân, ond nid oes rhaid cynhyrchu datganiadau ariannol statudol llawn (sy'n cydymffurfio gyda Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol "IFRS").

2. CYFRIFON 2018/19

- 2.1 Cyflwynir y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2018/19 yma fel Atodiad A ar ffurf adroddiad "alldro" syml. Gwelir fod yr harbyrau wedi tanwario (£2,875) gyda'i incwm yn dangos diffyg o £38,001 yn erbyn targed o £198,410. Noder fod y targed wedi ei ostwng £50,000 yn 2017/18 oherwydd y gostyngiad parhaol yn y gofyn am angorfeydd.
- 2.2 Yn Atodiad B, cyflwynir y ffurflen datganiadau cyfrifon am 2018/19, wedi'i chwblhau a'i hardystio cyn yr archwiliad gan Dafydd L Edwards, y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer yr Harbyrau.

- 2.3 Bydd y cyfrifon a'r ffurflen yn destun archwiliad buan gan Deloitte, archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd a apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Os bydd angen newidiadau yn dilyn archwiliad, yna cyflwynir fersiwn diwygiedig i gyfarfod mis Gorffennaf o'r Pwyllgor.
- 2.4 Ar ôl archwiliad Deloitte ac unrhyw addasiadau fydd angen, bydd cynrychiolydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ardystio'r ffurflen cyn 15 Medi 2019.
- 2.5 Mae Atodiad A yn dangos y cyfrifon refeniw yn unig tra bod y datganiadau cyfrifyddu yn Atodiad B yn cynnwys refeniw a chyfalaf. Roedd gwariant cyfalaf 2018/19 Harbyrau Gwynedd yn £20,000. Mae'r ffigur hwn yn rhan o'r swm ar linell 6, gyda'r incwm sydd yn ei ariannu ar linell 2.

3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio dderbyn a chymeradwyo'r wybodaeth sydd yn yr atodiadau, sef ;–

- Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2018/19 – Atodiad A
- Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2019, yn Amodol ar Archwiliad – Atodiad B